

Ymateb Ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes am Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith

Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn sy'n pwysleisio pa mor bwysig yw gwaith i sicrhau dyfodol cadarnhaol i bobl ifanc yng Nghymru.

Mae llawer o'i argymhellion yn cydweddu'n glos â'r gweithgareddau yr ydym eisoes yn eu datblygu a'u hybu - megis hwyluso cysylltiadau agosach a chryfach rhwng ysgolion a chyflogwyr, er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r sgiliau y mae cyflogwyr yn rhoi gwerth arnynt ac o'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael. Felly, rwy'n falch o allu derbyn yn llawn neu mewn egwyddor y rhan fwyaf o'r argymhellion.

Ni waeth a fydd pobl ifanc wedi dilyn llwybr academaidd ynteu lwybr galwedigaethol wrth groesi'r bont o fyd addysg a hyfforddiant i fyd gwaith, dylai hynny adeiladu ar sgiliau ar gyfer cyflogaeth a menter sydd wedi'u datblygu ar hyd y llwybr dysgu hwnnw. Mae Cymwys am Oes, ein cynllun gwella addysg i ddysgwyr 3-19 oed, yn dweud yn glir beth yw ein hamcanion strategol, sef darparu cwricwlwm deniadol sy'n meithrin gallu annibynnol mewn pobl ifanc i roi eu gwybodaeth a'u sgiliau ar waith. Rydym hefyd wedi ymrwymo yng Nghymru i ddatblygu cymwysterau sy'n ennyn parch cenedlaethol a rhyngwladol a fydd yn basbort credadwy i ddysgu a chyflogaeth yn y dyfodol.

Mae Dyfodol Llwyddiannus, yr adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru, yn hanfodol er mwyn gwireddu ein gweledigaeth a'n huchelgais ehangach ar gyfer dysgu. Mae Dyfodol Llwyddiannus yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi bod plant a phobl ifanc yn gweld sut mae'r hyn y maent yn ei ddysgu'n berthnasol y tu hwnt i gatiâu'r ysgol a'u bod yn manteisio ar gyfleoedd i greu cysylltiadau â'r byd hwnnw.

Fel sy'n wir am bob cenedl, ni allwn anwybyddu'r ffaith ein bod yn rhan o ras fyd-eang i ddatblygu sgiliau. Bydd y sgiliau hyn yn diffinio'n gallu i gystadlu yn y dyfodol ac yn gefn i'n hesblygiad yn genedl fedrus iawn, gan wella'n cynhyrchiant, lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwaith a helpu pobl i gael swydd. Drwy wireddu ein cynllun gwella addysg a'n Cynlluniau Gweithredu ym maes Sgiliau, rydym yn disgwyl y bydd pob unigolyn sy'n cwblhau addysg orfodol neu ôl-orfodol yn cael cymorth i feddu'r sgiliau llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen ar gyfer byd gwaith neu i fwrw ymlaen â rhagor o ddysgu.

Gwyddom fod cysylltiad rhwng diweithdra pobl ifanc ac amrywiaeth o ddangosyddion sy'n gysylltiedig ag amddifadedd. Mae'n hanfodol helpu pobl ifanc i gael gwaith er mwyn chwalu'r cylchoedd anfantais rhwng y cenedlaethau. Rhestrir ein targedau ar gyfer gostwng nifer y bobl ifanc sydd wedi cefnu ar fyd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Un o'r prif ymatebion i hyn oedd datblygu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Drwy greu a chefnogi cyd-destun

ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol a rhannu gwybodaeth, mae'r fframwaith hwn yn dal i sbarduno gwell perfformiad.

Mae ystadegau diweddar (15^{fed} Ebrill) o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn amcangyfrif nad oedd 8.1% o bobl ifanc 16-18 oed, yn y 12 mis a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2014, mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, o'u cymharu ag 11.9% ddiwedd 2013. Yn ystod yr un cyfnod, amcangyfrifwyd nad oedd 19.7% o'r bobl 19-24 oed mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, o'u cymharu â 20.4% yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2013.

Er ein bod yn croesawu'r cynnydd cadarnhaol yn yr ystadegau allweddol, nid oes lle inni fod yn fodlon ein byd a bydd gofyn cydweithio'n gryf yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol o hyd, er mwyn sicrhau bod ein holl bobl ifanc yn cael help i gael gwaith.

Isod, rwyf wedi rhoi fy ymateb i bob un o argymhellion yr Adroddiad.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r addysg a roddir ar sgiliau parod at waith a deall y farchnad lafur drwy'r cwricwlwm cyfan yn ogystal â thrwy'r fframwaith "Gyrfaedd a Byd Gwaith"

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Roedd adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm, 'Dyfodol Llwyddiannus', yn dweud mai meithrin pobl i fod yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith ddylai fod yn un o brif ddibenion y cwricwlwm yng Nghymru.

Er mai uchelgais tymor hir yw rhoi argymhellion Dyfodol Llwyddiannus ar waith, rydym eisoes yn cymryd camau i wella'r cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu'r sgiliau a'r mathau o ymddygiad sy'n ofynnol gan gyflogwyr. Er enghraifft, mae diwygio Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth ddiwygiedig Cymru yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau hanfodol a'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth y mae Prifysgolion a chyflogwyr am eu gweld gan ddysgwyr. Mae'r tair Her a'r Prosiect Unigol yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddysgu mewn ffordd bwrbasol yng nghyd-destun bywyd go iawn. Yn benodol, mae'r Her Menter a Chyflogadwyedd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau a nodweddion mentrus i'w gwneud yn fwy addas ar gyfer byd gwaith. Mae llawer o gyrrff allanol o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi cyfrannu at lunio'r Heriau hyn.

Pan fydd pobl ifanc yn ymgysylltu â chyflogwyr, gall hyn eu helpu i ddeall gwerth sgiliau ar gyfer gwaith a'u helpu hefyd i ddeall yn well y cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur. Mae'r prosiect Ymgysylltu â Chyflogwyr ar Rifedd wedi bod ar waith ers 2 flynedd ac mae dros 100 o ysgolion wedi cymryd rhan gan ddangos sut mae rhyngweithio â chyflogwyr yn arbennig o werthfawr pan gyflwynir hyn o CA3 ymlaen. Rydym wrthi'n caffael darparwr i ddatblygu

prosiect 'Cryfhau'r Cysylltiad â Chyflogwyr', a fydd yn cynnig model ar gyfer partneriaethau cynaliadwy rhwng ysgolion a chyflogwyr, a llwyfan i ddatblygu gweithgareddau gyda chyflogwyr sy'n berthnasol i ystod eang o feysydd y cwricwlwm. Bydd y prosiect newydd hwn yn adeiladu ar arferion effeithiol sydd ar waith eisoes, gan gynnwys y rheini a gododd o'r prosiect Ymgysylltu â Chyflogwyr ar Rifedd.

Mae'r adnoddau newydd - adnoddau estynedig a gwell sy'n cynnig gwybodaeth am y farchnad lafur, ac sydd ar gael i bob dysgwr drwy Gymru drwy gyfrwng gyrfacymru.com, yn cynnig gwybodaeth ddwyieithog o safon ar ffurf hwylus a pherthnasol i bobl ifanc.

Mae Estyn wedi gweld bod modd cyflawni'n effeithiol ddeilliannau dysgu fframwaith y cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith pan fydd ysgolion yn sicrhau bod addysgu'n bwrw gwreiddiau ar draws y cwricwlwm. Eleni, bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu ac yn diwygio'r canllawiau ar gyfer darparu Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith mewn ysgolion, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu, uwch arweinyddion, cydlynwyr Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith, staff addysgu, staff bugeiliol, anogwyr dysgu, gweithwyr arweiniol a staff Gyrfu Cymru.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r rhaglen bresennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru newid yn ei hanfod y profiad gwaith a gaiff pobl ifanc. Dylent adolygu'r arferion profiad gwaith gorau; ystyried ei wneud yn hwy; gwneud rhagor i sicrhau bod mwy o gyflogwyr yn cymryd rhan; a sicrhau bod digon o adnoddau (naill ai yng Ngyrfa Cymru neu mewn ysgolion) ar waith er mwyn i brofiad gwaith gael ei drefnu'n iawn.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd yr adolygiad sydd ar y gweill o ganllawiau i ysgolion ar gyfer darparu'r cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn cael ei ymestyn i gynnwys ystyried yr arferion gorau ym maes profiad gwaith a gwerth annog modelau darparu mwy gwahaniaethol sy'n symud oddi wrth ddarparu'r un gwasanaeth i bawb.

Mae Cymwys am Oes, ein cynllun gwella addysg i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru'n dweud sut y byddwn yn cyfarwyddo Gyrfa Cymru i gefnogi datblygu partneriaethau cryfach a mwy cynaliadwy rhwng ysgolion a chyflogwyr. Mae'r Prosiect Cryfhau'r Cysylltiad â Chyflogwyr yn elfen ganolog o wireddu'r uchelgais hon. Defnyddir y prosiect dwy flynedd i gyflwyno model newydd i hwyluso cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwr ac fe ddechreuir ei ledaenu yn yr haf. Yn sgil y prosiect hwn, ein dyhead yw gweld pob ysgol uwchradd yn llunio partneriaethau newydd â chyflogwyr erbyn 2018 a bod y partneriaethau hyn yn cael eu defnyddio i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau megis; lleoliadau profiad gwaith; ffug gyfweiliadau; mentora ac annog; paratoi ar gyfer gweithgareddau gwaith megis diwrnodau blasu; a lleoliadau tymor byr i athrawon mewn diwydiant.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru ar geisiadau am brosiectau sy'n ceisio arian gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop, gyda'r nod o ostwng nifer y bobl ifanc 11-16 oed y mae perygl iddynt gefnu ar fyd addysg neu hyfforddiant, drwy eu denu i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau cysylltiedig â chyflogwyr. Bydd y prosiectau'n cryfhau ymwybyddiaeth unigolion a'u gwybodaeth am wahanol sectorau economaidd, am ddisgwyliadau cyflogwyr a byddant yn rhoi gwybodaeth iddynt am yrfaedd posibl yn y farchnad lafur leol a rhanbarthol. Byddant hefyd yn galluogi unigolion i greu cysylltiad â modelau rôl a mentoriaid.

Mae adnoddau ar gael i helpu ysgolion i ddarparu'r Cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith fel rhan o'r trefniadau ariannu referniw i ysgolion. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £500k dros y ddwy flynedd nesaf yn y Prosiect Cryfhau'r Cysylltiad â Chyflogwyr. Mae llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru at Gyrfa Cymru ar gyfer 2015-16 hefyd yn ei gwneud yn glir ei bod yn disgwyl i'r corff fuddsoddi mewn hwyluso cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r rhaglen bresennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 3. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn ailgyflwyno'r cyfrifoldeb ar Gyrfa Cymru i gynnal archwiliadau lechyd a Diogelwch mewn lleoliadau profiad gwaith, ac i gadw Cronfa Ddata Genedlaethol o Brofiad Gwaith.

Ymateb: Gwrthod

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn. Mae'r canllawiau diweddaraf gan yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch yn cadarnhau nad oes dim rheoliadau iechyd a diogelwch sy'n mynnu bod ysgolion, colegau na'r rheini sy'n trefnu lleoliadau ar eu rhan, yn cynnal asesiadau yn y gweithle ar gyfer lleoliadau profiad gwaith. Y cyflogwyr sy'n derbyn myfyrwyr ar brofiad gwaith sy'n bennaf gyfrifol am eu hiechyd a'u diogelwch. Ar hynny, gan adlewyrchu'r canllawiau hyn, nid yw'n ofyniad chwaith i'r rheini sy'n trefnu lleoliadau gwaith fod wedi cyrraedd unrhyw lefel benodedig o ran cymhwysedd neu gymhwyster galwedigaethol.

Yr ysgolion, nid Gyrfa Cymru, sy'n gyfrifol am ddarparu lleoliadau profiad gwaith addas i bobl ifanc, a bydd y lleoliadau profiad gwaith yn aml yn rhan o ddarpariaeth cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yr ysgolion. Yng ngoleuni canllawiau diwygiedig yr Awdurdod lechyd a Diogelwch, roedd y llythyr cylch gwaith at Gyrfa Cymru ar gyfer 2015-16 yn ei gwneud yn glir y dylai Gyrfa Cymru gynllunio i ddod â'r gwasanaethau archwilio lechyd a Diogelwch sydd wedi'u darparu yn y gorffennol i ben erbyn mis Medi 2015.

Mae'r llythyr cylch gwaith at Gyrfa Cymru yn 2015-16 hefyd yn dweud nad yw Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bellach i'r sefydliad ddarparu cronfa ddata profiad gwaith genedlaethol o fis Medi 2015 ymlaen. Bydd yr adolygiad o'r canllawiau ynghylch Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn cynnig cyfle i archwilio gyda phartneriaid sut orau mae cefnogi trefnu lleoliadau gwaith yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a gwerthuso'r gwaith o gyflwyno'r broses ymgeisio gyffredin a'r prosiectysau i sicrhau bod disgyblion ysgol yn cael gwybodaeth a chyfle i ddilyn cyrsiau galwedigaethol yn ogystal â rhai academiaidd, (naill ai mewn ysgolion eraill neu golegau addysg bellach).

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd y cynllun i ledaenu'r Prosiectws Ardal Gyffredin/Proses Ymgeisio (CAP) mewn ysgolion o fis Medi 2015 ymlaen yn sicrhau bod disgyblion ysgol yn gallu cael gafael ar ddata llinell sylfaen chwiliadwy ar-lein ar gyfer cyrsiau galwedigaethol ac academiaidd a gynigir gan ddarparwyr dysgu ôl-16. Drwy integreiddio a symleiddio data ar wefan GyrfaCymru.com, byddwn yn sicrhau cysondeb ar draws yr holl gyrsiau a bydd hyn yn golygu y bydd pob darparwr yn gallu cyflwyno gwybodaeth gyson o safon ac ansawdd tebyg. Drwy gysoni'r data fel hyn, byddwn hefyd yn gwella profiad y defnyddiwr ac yn helpu disgyblion i seilio'u dewisiadau ar well gwybodaeth wrth iddynt groesi'r bont i ddarpariaeth ôl-16.

Bydd lledaenu'r CAP fel hyn ac integreiddio'r data ehangach, yn cael ei adolygu fel rhan o'r gweithgareddau rheoli prosiect penodol, wrth fonitro a gwerthuso llinyn ehangach y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid ac wrth fonitro sut y caiff cylch gwaith Gyrfa Cymru ei gyflawni.

Goblygiadau Ariannol

Mae £50,000 ar gael yng nghyllideb yr Is-adran Ymgysylltu a Datblygu leuenctid ar gyfer 2015-16 ar gyfer cyflawni cynllun lledaenu'r CAP. Darperir cymorth i gyflawni CAP gan Gyrfa Cymru cynlluniau i integreiddio a symleiddio'r data ar wefan GyrfaCymru.com ill dau o'r arian a roddir i Gyrfa Cymru gyflawni eu cylch gwaith craidd.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canlyniadau Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a phwyso a mesur y cyfleoedd i bobl ifanc yn yr ysgol ddewis cyrsiau galwedigaethol yn 14 oed ac 16 oed, naill ai mewn ysgolion eraill neu mewn colegau addysg bellach.

Ymateb: Gwrthod

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn. Yn dilyn argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ym mis Mai 2012, sefydlwyd Adolygiad Gorchwyl a Gorffen 14-19 allanol gan Lywodraeth Cymru o dan Gadeiryddiaeth Pennaeth i ystyried canlyniadau Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a oedd yn cynnwys cyfleoedd i bobl ifanc gael gafael ar ddarpariaeth alwedigaethol. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad ym mis Medi 2013 ac mae ymatebion a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i argymhelliad 5 yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes eisoes wedi'u hystyried gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ac mae camau wedi'u rhoi ar waith. Nodir argymhellion 7 a 9 adroddiad yr Adolygiad Gorchwyl a Gorffen 14-19 isod er gwybodaeth:

(Argymhelliad 7)

'Dylid datblygu cymwysterau IVET (L1 a L2) dwy haen alwedigaethol cyffredinol o fewn neu ar draws sectorau drwy'r fframwaith rhanddeiliaid Adolygiad o Gymwysterau ac mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr diwydiant a sefydliadau dyfarnu, er mwyn darparu sylfaen opsiynau ehangach ar gyfer IVET yn CA4 a hwyluso dilyniant yn well i ddysgu ôl-16 mewn cyd-destun galwedigaethol (CVET).'

(Argymhelliad 9)

'wrth ddatblygu'r dull IVET yn CA4, dylid cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn y trefniadau categoreiddio cymwysterau er mwyn sicrhau bod cymwysterau priodol sy'n tystio i gymwyseddau cyffredinol (e.e. hylendid bwyd sylfaenol) yn gallu cael eu hastudio gan, a'u cyllido ar gyfer, dysgwyr CA4.'

Goblygiadau Ariannol -- Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r rhaglen bresennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi'r cydbwysedd rhwng dysgu academiaidd a dysgu seiliedig ar waith ôl-16, ac asesu a yw'r cydbwysedd hwn yn briodol ar gyfer economi Cymru y dyddiau hyn.

Gwrthod

Bydd Llywodraeth Cymru eisoes yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth ystadegol am addysg uwch ac addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu gydol oes yng Nghymru sy'n cael ei defnyddio'n sail i bolisïau a darparu rhaglenni.

Mae Fframwaith Cynllunio ac Ariannu newydd ar gyfer addysg Ôl-16 wedi cael ei gyflwyno hefyd yn sail i ddyrannu cyllid ôl-16 sy'n canolbwyntio mwy ar gynllunio'r ddarpariaeth a'r deilliannau dysgu. Bydd y Fframwaith yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw gwerth y ddarpariaeth honno drwy werthuso canlyniad y cyflawni hwn, o ran camu ymlaen i swydd, i addysg uwch neu i ddysgu pellach.

Mae rhagor o waith ar gynllunio'r ddarpariaeth ôl-16 sy'n gysylltiedig â'r farchnad lafur leol wrthi'n cael ei ddatblygu yn dilyn y Datganiad Polisi ar Sgiliau ac mae tair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn cael eu cyflwyno i gefnogi hyn. Eu tasg hwy fydd sbarduno'r buddsoddiad mewn sgiliau ar sail anghenion economaidd lleol a rhanbarthol. Rydym hefyd yn datblygu dull i fesur cyrchfannau a ddefnyddir ar gyfer sefydliadau addysg bellach, y chweched dosbarth a dysgu seiliedig ar waith a fydd yn sicrhau bod y wybodaeth a gyhoeddir yn glir ac yn gyson. Cyhoeddwyd ystadegau sylfaenol ym mis Rhagfyr 2014 a bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn yn y dyfodol. Bydd yn gwaith ar fesur deilliannau'n cael ei ategu gan waith ychwanegol sy'n cael ei wneud ar y Dulliau Mesur Perfformiad ym maes Sgiliau, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014. Bydd hyn yn dadansoddi'n ehangach sut mae'r seilwaith sgiliau'n cyflawni ein dyheadau o ran swyddi a thwf, cynaliadwyedd ariannol, cydraddoldeb a thegwch ac yn meincnodi ein camau gweithredu yn erbyn gwledydd eraill yn rhyngwladol.

Goblygiadau ariannol – Dim. Mae'r wybodaeth ystadegol sy'n cael ei chyhoeddi ar hyn o bryd, y dulliau o fesur deilliannau ar gyfer ariannu ôl-16 a gwaith ar y Dulliau Mesur Perfformiad ym maes Sgiliau eisoes wedi'u cynnwys yng ngwaith y sefydliad ac felly, ni fodd gofyn cael dim adnoddau ychwanegol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 7. Ar ôl cyflwyno'r cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc 16 ac 17 oed (o fis Medi 2015 ymlaen), dylai Llywodraeth Cymru gynnal astudiaeth i edrych ar y gost o ymestyn y cynllun hwn i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed, a pha mor ymarferol fyddai hynny.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Ar ôl cyhoeddi'r cynllun teithio rhatach i bobl ifanc 16 ac 17 oed, mae swyddogion wedi bod yn cydweithio â chynrychiolwyr y diwydiant bysiau, pobl ifanc ac awdurdodau lleol, ac maent wedi negodi'n llwyddiannus gynllun a fydd yn cynnig gostyngiad o draean i bobl ifanc 16, 17 ac 18 oed, nid dim ond pan fyddant yn teithio i'w hyfforddiant ac i'r gwaith, ond ar gyfer eu holl deithiau ar fysiau lleol.

Er nad oes cynlluniau i gomisiynu astudiaeth benodol i archwilio costau a pha mor ymarferol fyddai ymestyn y cynllun hwn i bobl ifanc 18-24 oed, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i annog gweithredwyr bysiau i asesu manteision tymor hir ymestyn y gostyngiadau i grwpiau oedran eraill, gan gynnwys pobl 19 i 24 oed. Serch hynny, penderfyniad masnachol i weithredwyr bysiau yw hyn.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 8. Argymhellwn yn gryf fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Gyrfa Cymru yn darparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd wyneb yn wyneb ar gyfer pob person ifanc sydd ei angen.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Nid yw'r gwasanaeth a gynigir i bawb gan Gyrfa Cymru wedi cynnwys darparu yr un cyfweiliad cyfarwyddyd wyneb yn wyneb safonol i unigolion ers mis Ebrill 2013. Nid oes cynlluniau i ailsefydlu'r lefel hon o wasanaeth, gwasanaeth nad oedd llawer o bobl ifanc yn rhoi gwerth arno. Mae'r model darparu gwahaniaethol presennol yn defnyddio rhyngweithio wyneb yn wyneb, gwaith grŵp, ystod o wybodaeth a gwasanaethau cyfarwyddyd dros y ffôn ac ar y we, gan gynnwys gwesgwrs. Canolbwyntir erbyn hyn ar sicrhau bod y rheini sydd ag angen help fwyaf yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae Gyrfa Cymru'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i gael gwybod pa bobl ifanc a fydd yn elwa fwyaf o gymorth wyneb yn wyneb sydd wedi'i dargedu'n fwy manwl. Mae'r pecyn Career Check sy'n cael ei ddefnyddio gan fyfyrwyr ym mlwyddyn 10 yn rhan bwysig o'r broses hon oherwydd ei fod yn help i ddangos pa bobl ifanc sydd heb lawer o ffocws ar alwedigaeth ac a fydd yn elwa fwyaf o gael cymorth wyneb yn wyneb.

Mae cyfweiliadau cyfarwyddyd a chymorth sydd wedi'u teilwra'n fwy manwl ar gael i grwpiau penodol o gleientiaid. Cyfeirir at hyn yn y llythyr cylch gwaith ac mae gwaith grŵp yn dal i gael ei ddefnyddio gyda phlant ysgol. Craidd y model darparu o hyd yw'r cynghorwyr gyrfaoedd proffesiynol a diduedd, ond wrth edrych tua'r dyfodol bydd Gyrfa Cymru'n gweithio gyda phartneriaid, cleientiaid a rhanddeiliaid i ddatblygu strategaeth ddigidol newydd er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd newydd y mae technoleg yn eu cynnig.

Gan edrych ymlaen yn 2015-16, bydd Gyrfa Cymru'n ystyried datblygu'r wefan gan roi sylw i adborth defnyddwyr a thrwy ymgynghori â chleientiaid ifanc, cleientiaid hŷn a rhanddeiliaid. Mae mwy o dystiolaeth ar gael bellach bod disgwyl i bobl ifanc wasanaethu eu hunain drwy ddefnyddio'r wefan ac y byddant yn gwneud hynny, yn enwedig drwy ddefnyddio ffonau clyfar i gael gafael ar wybodaeth a chyngor ar yr adeg ac yn y man sydd fwyaf hwylus iddynt hwy. Bydd cael gafael ar adborth defnyddwyr, gwerthuso'r gwasanaethau a ddarperir drwy wahanol fecanweithiau Gyrfa Cymru, gan gynnwys cyfarwyddyd wyneb yn wyneb, yn chwarae rhan hollbwysig wrth geisio mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc o ran cyngor am yrfa.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 9. Argymhellwn fod adolygiad y Dirprwy Weinidog o ymgysylltu â chyflogwyr yn cael blaenoriaeth ac yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf 2015. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ysgrifennu atom gan roi rhagor o fanylion am yr adolygiad a'r amserlen.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Bydd dau gam gweithredu'n ganolog i'n hymateb. Yn gyntaf, bydd ein prosiect newydd 'Cryfhau'r Cysylltiad â Chyflogwyr' yn sail i'n dull o wella'r cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr, ac Fforwm Strategol Cymru ar gyfer Datblygu Gyrfa eisoes wedi bod yn llunio ac yn llywio'r gwaith hwn. Darperir y prosiect hwn ar y cyd â Gyrfa Cymru fel rhan o'r cylch gorchwyl ehangach i cefnogi cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr. Bydd hyn yn sefydlu partneriaethau cryfach a mwy cynaliadwy rhwng ysgolion a chyflogwyr. Bydd y ddarpariaeth yn dechrau yn yr haf ac yn cael ei lledaenu i ysgolion o fis Medi 2015 ymlaen. Bydd y prosiect hwn yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd yn sgil y Prosiect Ymgysylltu â Chyflogwyr ar Rifedd a bydd yn help i sicrhau bod dulliau ac arferion effeithiol o ymgysylltu rhwng ysgolion a chyflogwyr yn bwrw gwreiddiau a'u bod yn sail i bolisiau yn y dyfodol.

Yn ail, eleni, byddwn yn adolygu'r canllawiau ar gyfer darparu fframwaith y cwricwlwm Gyrfaedd a'r Byd Gwaith mewn ysgolion. Bydd y gweithgarwch hwn yn cynnwys ystyried enghreifftiau o arferion effeithiol ac astudiaethau achos gwaith ymgysylltu rhwng cyflogwyr ac ysgolion. Cyflwynir cylch gorchwyl yr adolygiad i Fforwm Strategol Cymru ar gyfer Datblygu Gyrfa, fforwm yr wyf yn Gadeirydd arno, yn ei gyfarfod nesaf yr haf hwn. Wrth gwrs, byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wneir.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r rhaglen bresennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i fynd i'r afael ag anghysonderau yn y system budd-daliadau, er enghraifft, yr anhawster y mae pobl ifanc yn ei wynebu o ran parhau â'u tenantiaeth os caiff eu budd-dal tai ei dorri oherwydd eu bod wedi derbyn swydd nad yw'n talu'n dda.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cydweithio'n glos â'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau cyflogaeth a sgiliau sy'n helpu ceiswyr swyddi yng Nghymru'n cael eu cysoni'n well. Rhoddais ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 3 Chwefror 2015.

O ran mater penodol budd-dal tai, at ddibenion Lwfans Tai Lleol, dim ond ar gyfer y gyfradd rhannu llety y bydd pob hawlydd sy'n *unigolyn ifanc* yn gymwys ar ei chyfer, ni waeth faint o'r llety hwnnw y maent yn byw ynddo. Fel rheol, ystyrir hawlydd unigol sydd o dan 35 oed yn *unigolyn ifanc*. Mae nifer o eithriadau, gan gynnwys pobl sydd wedi gadael gofal, pobl sydd wedi bod mewn llety i bobl ddigartref, pobl sydd â rhywun yn dibynnu arnynt ac ati.

Pan fydd diffyg yn y Budd-dal Tai, caiff tenantiaid hawlio help ychwanegol drwy gyfrwng y cynllun taliadau tai amodol os oes ganddynt yr hawl i gael Budd-dal Tai. Rydym wedi bod yn gweithio'n glos gyda phartneriaid i wella 'byd' y bobl hynny sy'n cael Budd-dal Tai (gan gynnwys hawl wyr iau), ac i gytuno ar brotocolau i gysoni'r drefn a lleihau'r nifer sy'n gorfod hawlio dro ar ôl tro.

Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am weinyddu'r Gronfa Taliadau Tai Dewisol, drwy ddilyn canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn feirniadol o'r canllawiau oherwydd eu bod yn rhy amwys, gan arwain at anghysonderau, yn enwedig i hawl wyr anabl a'r rheini sy'n byw mewn eiddo sydd wedi'i addasu'n arbennig.

Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i roi rhagor o flaenoriaeth i'r canlynol:

- helpu'r rheini sy'n gwneud ymdrech i'w helpu eu hunain;
- cefnogi'r rheini sydd wedi gwneud popeth yn eu gallu i reoli'r sefyllfa y maent ynddi, ac na allant yn realistig wneud dim rhagor;
- rhwystro canlyniadau negyddol megis digartrefedd sy'n debygol o olygu mwy o galedi ar yr aelwyd, yn ogystal â chostau ychwanegol i'r cyngor y byddai modd eu hosgoi.

Dechreuodd y fframwaith newydd ar 6 Ebrill 2015, ac mae'n cynnwys y newidiadau canlynol:-

- Bydd y rheolau newydd, a gyflwynwyd ochr yn ochr â chanllawiau presennol yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn helpu Awdurdodau

Lleol i ddyfarnu arian mewn ffordd deg a chyson ac i flaenoriaethu'r bobl sy'n helpu eu hunain.

- Mae ffocws cryf ar sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn helpu tenantiaid gyda'r problemau sylfaenol sy'n achosi caledi iddynt h.y. cynghori, cyfeirio pobl at asiantaethau priodol megis y Gronfa Cymorth Dewisol, Gwasanaethau Cynghori Ariannol a Chyngor ar Bopeth Cymru ac ati.
- Bod incwm anabledd yn cael ei drin yn deg h.y. yn cael ei ystyried yn llawn a bod unrhyw dreuliau sy'n gysylltiedig â'r incwm hwnnw'n cael ei ystyried yn wariant h.y. Motability, golchi dillad, deiet arbennig ac ati.

Yn ogystal â hyn, mae darpariaethau arbennig yn y system Budd-dal Tai i bobl ifanc sy'n gadael gofal a hefyd i'r tenantiaid hynny a oedd yn gallu fforddio'u rhent am 12 mis cyn hawlio Budd-dal Tai.

Mae'r darpariaethau digartrefedd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn dod i rym ar 27^{ain} Ebrill 2015. Mae'r diwygio hwn yn cyflwyno dyletswyddau newydd i Awdurdodau Lleol i helpu i atal pobl rhag mynd yn ddigartref neu i helpu pobl sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref drwy ddod o hyd i lety iddynt. Bydd hyn o fudd mawr i bobl ifanc sydd mewn perygl. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cadw'r statws 'angen blaenoriaethol' i bobl ifanc 16 ac 17 oed, pobl sy'n gadael gofal a phobl ifanc fregus eraill, ac mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau llety i'r grwpiau hyn os ydynt yn ddigartref. Weithiau, bydd Awdurdodau Lleol yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i lety fforddiadwy i bobl ifanc ar incwm isel, yn enwedig pobl ifanc, ac mae'r sefyllfa'n waeth byth yn sgil y gyfradd ystafell sengl i rai dan 35 oed. Mae cynyddu'r cyflenwad o lety fforddiadwy'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a byddwn yn rhagori ar ein targedau erbyn 2016.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu rhagor o gyrsiau hyblyg a all gynnwys pobl ifanc sydd angen rhagor o amser i sicrhau'r canlyniadau sy'n ofynnol.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Rydym eisoes yn cyflawni'r gofyniad hwn drwy gyfrwng y rhaglen Hyfforddeiaeth. Mae'r rhaglen Hyfforddeiaeth yn gwbl hyblyg, nid oes terfynau amser o gwbl, a dylai pob darpariaeth gael ei theilwra i ddiwallu anghenion dysgwr unigol. Bydd llawer o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglen Hyfforddeiaeth yn wynebu rhwystrau cymhleth. a sylweddol, ac fe all felly gymryd cryn amser a chymorth i rywun ifanc gamu ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Rydym yn sylweddoli y byddai modd gwella'r rhaglen, ac y gallai'r ddarpariaeth, mewn ambell achos, fod wedi'i theilwra'n fwy penodol i anghenion unigolion. Felly, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r rhaglen Hyfforddeiaeth ac wedi comisiynu York Consulting i wneud y gwaith ymchwil ar ein rhan. Cyhoeddir adroddiad ym mis Rhagfyr 2015, ac, ar sail yr argymhellion, gallwn roi rhai newidiadau i'r rhaglen ar waith ym mlynnyddoedd y dyfodol.

Nid oes yn rhaid cwblhau'r rhaglen Brentisiaeth na'r rhaglen Hyfforddeiaeth o fewn cyfnod penodol.

Yn fwy cyffredinol, mae sicrhau bod darpariaeth hyblyg ar gael sy'n cynnig dyddiadau dechrau drwy gydol y flwyddyn yn cael ei gydnabod yn ffactor pwysig er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i ymgysylltu ag addysg. Roedd llythyr blaenoriaethau'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar gyfer addysg bellach yn 2015/16 yn sôn am hyn ac yn annog sefydliadau i weithio gydag Awdurdodau Lleol, Gyrfa Cymru a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith i amserlennu mwy o ddyddiadau dechrau drwy gydol y flwyddyn. Mae sefydliadau unigol yn gwneud eu gorau i ystwytho dyddiadau eu tymhorau o fewn cyfyngiadau contractau cymwysterau a staffio, a bydd swyddogion yn gweithio gyda Colegau Cymru i nodi'r egwyddorion a'r arferion gorau ar gyfer darpariaeth AB hyblyg.

Goblygiadau Ariannol - A dibynnu ar ganlyniadau'r adolygiad a bydd angen ystyried goblygiadau ariannol unrhyw argymhellion ar ôl cael adroddiad y gwerthusiad.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r gwaith ar gydgysylltu a chynllunio'r cymorth ariannol presennol ar gyfer y trydydd sector er mwyn lleihau dyblygu ac i roi blaenoriaeth i roi cymorth i'r bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd i fynd i mewn i'r farchnad swyddi

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i ddatblygu Rhaglen Weithredu fanwl a fydd yn llywio'r cydweithio â'r Trydydd Sector ar draws holl bortffolios y Gweinidogion. Bydd hyn yn cynnig ffordd newydd o gydlynu'r cynllunio a'r darparu â'r sector mewn meysydd sy'n flaenoriaeth megis helpu pobl ifanc i fynd i mewn i'r farchnad swyddi. Bydd y Trydydd Sector hefyd yn parhau i gael cymorth cyrff Seilwaith, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol, sydd yn gweithio ledled Cymru. Mae eu rôl yn canolbwyntio fwyfwy ar sicrhau'r budd mwyaf yn sgil cyfraniad cyrff y Trydydd Sector at drechu tlodi.

Ar hyn o bryd, rydym yn rhoi'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid ar waith i roi gwell cefnogaeth i bobol ifanc er mwyn iddynt barhau i ymgysylltu â byd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Rydym yn sylweddoli ei bod yn bwysig dilyn dull system gyfan er mwyn rhoi'r fframwaith ar waith yn llwyddiannus, dull lle bydd rolau a chyfrifoldebau'n cael eu diffinio'n fwy clir a lle bydd yr holl asiantaethau a'r darparwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn cydweithio i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc. Mae'r fframwaith yn rhoi rôl arwain strategol allweddol i awdurdodau lleol ond mae angen iddynt ymgysylltu'n glos â sefydliadau megis Gyrfa Cymru a'r sector gwaith ieuencid gwirfoddol wrth ddatblygu eu cynlluniau gweithredu, yn ogystal â chydweithio ag ysgolion a'r ystod gyflawn o ddarparwyr ôl-16 er mwyn sicrhau llai o ddyblygu a bod cymaint o adnoddau â phosibl ar gael i roi cymorth llawn i'r bobl ifanc hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda Chyngor Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol Cymru i ddeall yn well swyddogaeth y sector gwaith ieuencid gwirfoddol a chyfleoedd i wirfoddoli i helpu i sicrhau bod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

Goblygiadau Ariannol - dim

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r buddsoddiad yn y gweithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed i sicrhau eu bod yn cael y cymorth un-i-un sydd ei angen arnyn nhw i'w helpu i ddod o hyd i waith.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, oherwydd nad yw'r rhan fwyaf o'r bobl a'r sefydliadau sy'n darparu cymorth gweithiwr arweiniol yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Roedd cynllun gweithredu'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid yn cynnig 'gweithiwr arweiniol' i ddarparu dilyniant o ran cymorth a chyswllt i'r bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf, er mwyn iddynt barhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, neu er mwyn iddynt fynd i'r meysydd hynny.

Nid yw swyddogaeth y 'gweithiwr arweiniol' o anghenraid yn swydd newydd oherwydd mewn llawer achos, cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â rôl swydd sy'n bodoli eisoes fydd y swyddogaeth hon. Mae staff mewn ysgolion a cholegau (e.e. staff bugeiliol neu anogwyr dysgu); gweithwyr ieuenctid awdurdodau lleol, cynghorwyr Gyrfa Cymru a gwasanaethau cymorth gwirfoddol ac arbenigol i gyd yn gall darparu cymorth gweithiwr allweddol. Gan mwyaf nid yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi comisiynu'r Uned Pobl a Gwaith yn ddiweddar i nodi a rhannu arferion effeithiol wrth arwain mewn gwahanol gyd-destunau. Bydd y gwerthusiad ffurfiannol o'r fframwaith yn cynnwys adran am weithredu'r fframwaith mewn hinsawdd ariannol heriol.

Y pwynt hollbwysig yw bod y cymorth hwn yn cael ei gydlynu'n effeithiol. Mae'r fframwaith yn argymhell sefydlu swyddogaeth Cydlynedd Ymgysylltu a Datblygu i gydlynu'r cymorth i bobl ifanc (drwy ddynodi'n gynnar, gwybodaeth i ymarferwyr a'r adnoddau sydd ar gael); a deall effaith unrhyw gymorth a ddarperir. Mae pob awdurdod lleol wedi sefydlu swyddogaeth Cydlynedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu grant gwerth £50,000 i bob awdurdod lleol i'w helpu i roi'r fframwaith ar waith yn 2015-16. Un o amodau'r grant hwn yw eu bod yn cadw swyddogaeth y Cydlynedd.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru wella'r hyfforddiant sydd ar gael cyn y lefel mynediad i helpu pobl ifanc ymgymryd â Hyfforddeiaeth.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae angen sicrhau bod y rhaglen Hyfforddeiaeth yn diwallu anghenion y rheini y mae angen hyfforddiant cyn y lefel mynediad arnynt ac rydym yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Rhaglen Hyfforddeiaeth.

Cynlluniwyd y rhaglen Hyfforddeiaeth gyda chymorth cyn y lefel mynediad yn rhan hanfodol o'r ddarpariaeth. Mae eisoes yn darparu hyfforddiant a chymorth i bobl ifanc sydd ag anghenion a gofynion sylweddol ac sy'n wynebu rhwystrau. Dylai'r Rhaglen Hyfforddeiaeth helpu'r bobl ifanc hynny y mae angen hyfforddiant cyn y lefel mynediad arnynt drwy gyfrwng y llinyn ymgysylltu. Rydym yn sylweddoli y gellid gwella'r rhaglen eto, i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pob dysgwr yn llawn, gan gynnwys y dysgwyr hyn sydd ar y lefel cyn mynediad. Felly, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r rhaglen Hyfforddeiaeth ac wedi comisiynu York Consulting i wneud y gwaith ymchwil ar ein rhan. Cyhoeddir adroddiad ym mis Rhagfyr 2015, ac, ar sail yr argymhellion, gallwn roi rhai newidiadau i'r rhaglen ar waith ym mlynnyddoedd y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol - A dibynnu ar ganlyniadau'r adolygiad a bydd angen ystyried goblygiadau ariannol unrhyw argymhellion ar ôl cael adroddiad y gwerthusiad.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyd yn oed mwy ledaenu gwybodaeth am brentisiaethau yn ehangach.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu, er mwyn sicrhau iechyd tymor hir yr economi, fod angen i fwy o unigolion ddilyn trywydd prentisiaeth a bod angen i fwy o gyflogwyr sicrhau bod darpariaethau ar gael i'r rheini sy'n awyddus i ddod yn brentisiaid. Mae angen inni berswadio mwy o gyflogwyr o bob math i gynnig cyfleoedd ac wedyn i annog rhagor o unigolion i goleddu'r math hwn o hyfforddiant, beth bynnag yw eu dyhead am yrfa penodol.

Mae'n hollbwysig Hyrwyddo Prentisiaethau i unigolion sy'n dal yn yr ysgol er mwyn i brentisiaethau ennyn parch cydradd â'r llwybr traddodiadol TGAU i Safon Uwch i Radd mewn ysgolion. Bwriadwn gryfhau'r ymwybyddiaeth o brentisiaethau eto ymhlith unigolion mewn ysgolion drwy:-

- Ymgysylltu ag unigolion drwy farchnata prentisiaethau a chynnal ymgyrchoedd cyfathrebu a'u cyfeirio at y Porth Sgiliau i unigolion a ddarperir gan Gyrfa Cymru.
- Gweithio gyda nifer o 'Lysgenhadon Prentisiaethau', sy'n cynnwys cyn enillwyr a'r rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yn y Wobr i Brentisiaid a'r Sioe Sgiliau. Ar sail eu profiadau ymarferol hwy, bydd y Llysghadon yn helpu i hyrwyddo manteision cadarnhaol prentisiaethau i ddisgyblion presennol sy'n ystyried eu hopsiynau. Mewn cyfres o sioeau teithiol drwy Gymru, bu prentisiaid yn dychwelyd i'w hysgol leol i roi cyflwyniad i fyfyrwyr Blwyddyn 9 /10 i sôn am eu profiadau fel prentis.
- Ymgysylltu â phobl drwy sianelau cyfryngau cymdeithasol priodol a hyrwyddo straeon newyddion da a swyddi gwag i Brentisiaid ar Twitter a Facebook, a chyfeirio pobl at y Gwasanaeth Cyfatebu Prentisiaethau.

Goblygiadau ariannol - Dim Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r rhaglen bresennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Argymhelliad 16. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn cynnal yr adolygiadau canlynol ar frys, a gofynnwn iddi roi rhagor o fanylion am y cynlluniau gweithredu a'r amserlenni ar gyfer yr adolygiadau a'r prosiectau hyn, gan gynnwys:

- yr adolygiad o brofiad gwaith;
- yr adolygiad o strwythur Gyrfa Cymru; a'r
- cynlluniau ar gyfer dull gwell o ymwneud â chyflogwyr i ddarparu gwybodaeth gywir am y farchnad lafur i bobl ifanc.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd ein hadolygiad o ganllawiau i ysgolion ar gyfer darparu'r cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn cael ei ymestyn i gynnwys ystyried yr arferion gorau ym maes profiad gwaith a gwerth annog modelau cyflawni mwy gwahaniaethol sy'n symud oddi wrth y dull safonol sy'n rhoi'r un gwasanaeth i bawb.

Bydd strwythur y gwasanaeth a gynigir gan Gyrfa Cymru'n cael ei bennu ar ôl i Weinidogion gytuno ar y llythyr cylch gwaith blynyddol. Anfonir y llythyr at y cwmni ddechrau mis Rhagfyr bob blwyddyn, ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Bydd cynllun busnes Gyrfa Cymru'n ymateb i'r cylch gwaith, gan bennu'n fwy manwl sut y bydd yn cyflawni'r disgwyliadau a restrir yn llythyr y cylch gorchwyl. Bydd y ffordd y mae Gyrfa Cymru'n darparu gwasanaethau ac yn ymateb i ofynion ei gleientiaid yn cael eu monitro mewn adroddiadau perfformiad chwarterol sy'n cael eu bwydo i gyfarfodydd rheolaidd rhwng y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg a Chadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Gyrfa Cymru, yn ogystal â'r Prif Weithredwr.

Mae'r gwasanaeth a gynigir gan Gyrfa Cymru felly'n cael ei seilio ar werthusiadau a gomisiynir gan Gyrfa Cymru i ddadansoddi gwerth a budd gwasanaethau. Bydd hyn yn dangos i'r cwmni ymhle y mae pethau'n gwella neu ymhle y dylid ystyried gwelliannau. Mae'r cwmni hefyd yn ceisio adborth gan randdeiliaid ac, fel aelod o Fforwm Strategol Datblygu Gyrfaoedd Cymru, yn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cael gwybod yn rheolaidd am ddatblygiadau neu newidiadau i'r gwasanaeth a gynigir a'r mecanweithiau darparu. Mae cyfuno'r chwe chwmni gyrfa rhanbarthol blaenorol yn un gwasanaeth i Gymru gyfan ers mis Ebrill 2013 eisoes wedi sicrhau manteision sylweddol o ran lledaenu safonau gwasanaeth cyffredin i gleientiaid a sicrhau arbedion effeithiolrwydd o ran gwariant ac o ran y ddarpariaeth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Gyrfa Cymru wedi buddsoddi'n helaeth i wella a chryfhau ystod y wybodaeth sydd ar gael am y farchnad lafur drwy gyrfacymru.com. Mae gwybodaeth am wahanol lwybrau gyrfa wedi'i hehangu gan ddefnyddio data 'ciplun' am swyddi a gwybodaeth am sectorau, am

lefelau cyflogau ar gyfartaledd, oriau gweithio, y mathau o waith, lefelau'r cymwysterau sydd eu hangen a lefel y galw yng Nghymru.

Mae Gyrfa Cymru wedi blaenoriaethu gwella'r wybodaeth, y cyngor a'r cyfarwyddyd a roddir i bawb am yrfaoedd gan Gyrfa Cymru ar lein, gan ddiweddarau pecynnau dewis gyrfa a gwybodaeth am swyddi. Mae'r wefan hefyd yn parhau i gynnal pyrth y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau a chyfleoedd Twf Swyddi Cymru. Ceir adran newydd hefyd, sef y Porth Sgiliau sy'n darparu gwybodaeth i bob unigolyn, gan gynnwys pobl ifanc 18 - 24 oed, sy'n chwilio am waith.

Bydd cynghorwyr gyrfaoedd yn defnyddio gwybodaeth leol, rhanbarthol a chenedlaethol am y farchnad lafar wrth weithio gyda chleientiaid a phartneriaid. Mae'n aelod o Grŵp Rheoli Gwybodaeth am y Farchnad Lafur Llywodraeth Cymru sydd newydd ei sefydlu ac mae'n datblygu cysylltiadau â'r Partneriaethau Rhanbarthol newydd i gael gafael ar wybodaeth berthnasol am y farchnad lafur ac i rannu'r wybodaeth honno.

Goblygiadau Ariannol - Dim.